

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud eu hadeiladau a'u hasedau'n fwy ynni effeithlon. Mae RE:FIT Cymru yn caniatáu i sector cyhoeddus Cymru sicrhau cynilion gwarantedig a lleihau effeithiau carbon drwy gael mynediad i Dystysgrifau Perfformiad Ynni (EPCs). Mae'r cynllun RE:FIT Cymru yn defnyddio Fframwaith Re:fit y DU a sefydlwyd yn 2008-9, sy'n fframwaith cadarn ac wedi'i brofi.

Gwasanaeth Cymorth Re:fit Cymru

Mae Gwasanaeth Cymorth Re:fit Cymru yn cael ei ariannu ar y cyd gan Raglen Ynni Deallus Ewrop yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'n rhoi cefnogaeth i sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae cymorth Re:fit Cymru yn cynnwys:

- **Uned Gweithredu Rhaglen Re:fit Cymru** – tîm arbenigol sy'n darparu'r gefnogaeth cost isel, gyflawn sydd ei hangen i ddatblygu a gweithredu prosiectau yn llwyddiannus. Mae'r gwasanaeth cymorth hwn yn derbyn cymhorthdal mawr, ac ar gael i sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru am gyfraniad bach; a
- **mynediad i Fframwaith Re:fit o gwmnïau cyflenwi ynni** – sy'n arbed amser ac adnoddau i sefydliadau sy'n caffael gwasanaethau a gwaith ôl-osod a, gan ei fod yn fframwaith contractio perfformiad ynni, mae'n gwarantu arbedion ynni a chostau.

Fframwaith Re:fit

Mae'r fframwaith Re:fit yn fframwaith sy'n cael ei dendro'n gystadleuol ac sy'n cael ei hysbysebu gan Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, sydd wedi'i ddatblygu i weddu anghenion sefydliadau'r sector cyhoeddus gan ddarparu llwybr caffael sy'n gyflym, effeithiol ac yn gynnil. Mae'r fframwaith yn cynnwys un-ar-bymtheg cwmni cyflenwi ynni a ddewiswyd am eu llwyddiant blaenorol i ddarparu mesurau lleihau a chreu ynni.

Mae'r fframwaith Re:fit yn fframwaith contractio perfformiad ynni. Mae hyn yn golygu, pan fyddant yn cychwyn contract gyda sefydliad y sector cyhoeddus, bydd y cwmnïau cyflenwi ynni yn gwarantu'r arbedion ynni o'r gwaith sy'n cael ei wneud dros gyfnod penodol. O ganlyniad, mae sefydliadau yn sicr o arbed arian. Bydd yr Uned Ddyroddi Arfaethedig yn cynghori ar agweddau technegol cynigion y cwmnïau cyflenwi ynni felly bydd sefydliadau'r sector cyhoeddus yn derbyn cefnogaeth lawn i gaffael cwmni cyflenwi ynni.

Mae mesurau nodweddiadol yn cynnwys:

- goleuadau a'r dull o'u rheoli
- adfer gwres
- gyriannau amrywio cyflymder ar bympiau/gwyntyllau
- rheoli ar gyfrifiaduron
- optimeiddiaeth folteddau
- systemau rheoli adeiladu
- meddalwedd rheoli ynni
- darllen mesurydd yn awtomatig
- monitro a thargedu awtomatig
- paneli ffotofoltäig
- solar thermol
- inswleiddio wal geudod a lloffydd
- inswleiddio peipiau
- Gosod defnydd gwrth-ddrafft
- gwydr eilaidd
- paneli adlewyrchu i reiddiaduron
- gwresogi ardal
- Gwres a phŵer cyfunedig (CHP)

Cysylltiadau

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: cymru.llyw/refitcymru

Er mwyn siarad gyda rhywun yn y Tîm Re:Fit Cymru, cysylltwch â:

Tristan Oliver

Rheolwr y Rhaglen

tristano@gepenv.co.uk

Ffôn Symudol: 07702 422860

Glyn Mountford

Swyddog Arweiniol Cleientiaid
a Datblygu Busnes

glynm@gepenv.co.uk

Ffôn Symudol: 07843 421712

Yr awduron sy'n bennaf gyfrifol am gynnwys y ddogfen hon. Nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn yr Undeb Ewropeaidd. Nid yw Banc Buddsoddi Ewrop na'r Comisiwn Ewropeaidd yn gyfrifol am unrhyw ddefnydd o'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ynddi.